

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.B.Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 21 Mehefin 2017 am 5.00pm.**

Mae gan Gyngorwyr a'r sawl sy wedi cael gwahoddiad yr hawl i siarad â'r Pwyllgor ar unrhyw un o'r materion isod drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Er mwyn cyflwyno cais i siarad yn Gymraeg, gwnewch hynny dau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor drwy ffonio'r Gwasanaethau Democrataidd ar 01443 424102 neu drwy e-bostio marc.jones@rctcbc.gov.uk.

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2017 yn rhai cywir.

1-16

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull

Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet sydd â chyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Cullwick i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnewch chi roi datganiad ynglŷn â chynlluniau arafu traffig a'u heffaith ym mhob rhan o'r Cyngor?"

- (b) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.R.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins).**

"A wnewch chi roi datganiad ar wasanaethau gofal yn y cartref?"

- (c) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol E.Webster i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.A.Norris).**

"A fydddech cystal â rhoi'r newyddion diweddaraf i mi ar gynnydd/llwyddiant cynllun cyflwyno WiFi am ddim mewn pob man cyhoeddus yn adeiladau'r Cyngor?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7 Swyddfa Archwilio Cymru

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr.

17 – 62

8 Newid aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

63 – 64

- 9 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor

14 Mehefin 2017

